

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 7fed 2017 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Gwenda Morris (is-gadeirydd), Maldwyn Jones, Iolo Evans, Eilir Rowlands, Gethin Morris, Alwyn Jones, Rita Jones, Gwenda Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gary Thomas, Dewi Pritchard, Eifion Davies, Tina Davies a Gwynedd Jones.

Croesawyd Rita Jones i'w chyfarfod cyntaf.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

i) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Mynwent Llanfor.

Cyn y Nadolig roedd y clerc wedi derbyn cwyn pellach am ganghennau'r goeden ywen yn y fynwent. Gan nad oedd y contractwr wedi cychwyn ar y gwaith eliriwyd y llanast gan y Cyng. Gary Thomas. Gofynnwyd i'r clerc ail edrych ar yr adroddiad a dderbyniwyd am y goeden cyn penderfynu os oedd angen torri'r goeden..

ii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn.

i) Ad-daliad costau cynnal llwybrau - trafodwyd y toriadau i'r cyllid blynyddol ar effaith y byddai hyn yn ei gael ar y gwasanaeth. Cytunwyd i ofyn i'r Bartneriaeth am amcangyfrifi o'r gost o dorri'r llwybrau unigol a'r posibilrwydd y gallai Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gyfrannu tuag at dorri llwybr Gors y Sarnau. Cytunwyd i arwyddo cytundeb Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau'r cyllid gostyngedig a oedd yn cael ei gael ar gyfer 2017-18.

b) Cyngor Gwynedd

- i) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – gwybodaeth am y 'Gofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi'.
- ii) Ymchwiliad craffu - Trefniadau Cynllunio Cyngor Gwynedd - cytunwyd i gwblhau'r holiadur a anfonwyd.
- iii) Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd – Copi o'i Adroddiad Blynyddol 2015-16.

c) Amrywiol

- i) Grŵp Cynefin - derbyniwyd gwybodaeth am annedd gwag yn Llandderfel.
- ii) Un Llais Cymru - Cafwyd adroddiad gan y clerc o'r hyn a drafodwyd yn y cwrs cyfrifon a mynychodd ym Mhenrhyndeudraeth ar y 2/2/17. Gan fod Cyngor Cymuned Llanycil wedi talu i'r clerc fynychu'r cwrs cytunwyd i dalu'r costau teithio.
- iii) BT - Derbyniwyd llythyr yn ein cynghori o'r cyfnod ail-ymgyngori ynglŷn â chael gwared â'r ciosg ffon yn Llanfor a Glanrafon.

iii) Ceisiadau Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

C16/1648/04/CR – Trosi adeilad allanol yn uned gwyliau a chodi estyniad ochr. Coed y Bedo, Cefnddwysarn.
C16/1659/04/TC - Cais am dystysgrif cyfreithlon ar gyfer defnyddio adeilad fel uned hunan cynhaliol. Pale Bach, Cwm Main.

C17/0076/04/CR - Dymchwel estyniad unllawr presennol a chodi estyniad deulawr ochr yn ei le, ynghyd a chodi adeilad cwrtil/modurdy ar wahan. Plas Onn, Llandderfel.

C17/0091/04/LL - Trosi adeilad amaethyddol traddodiadol di-ddefnydd yn uned gwyliau hunan cynhaliol. Llechwedd Figyn, Llangwm.

iv) Materion Ariannol.

a) Monitro derbyniadau a thaliadau - Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

b) Cyllideb a Praesept 2017-18 - Cafwyd braslun o'r gyllideb gan y clerc a chytunwyd i gynnwys £1,250 ychwanegol ar gyfer costau etholiadau mis Mai 2017 (£250 ar gyfer costau gweinyddol a £1,000 rhag ofn bydd etholiad mewn un o'r wardiau - os bydd etholiad yn y ddwy ward cytunwyd i dalu'r ail £1,000 o'r arian wrth gefn). Gan fod y gwaith torri glaswellt yn y mynwentydd yn cael ei ail hysbysebu'r cytunwyd y dylid codi'r gyllideb i £3,000. Trafodwyd y swm o arian a gadwi'r wrth gefn a chytunwyd bod angen cadw'r £8,000 a dderbyniwyd am werthiant yr hawl tramwy ym mynwent Llanfor yn 2014 ar gyfer costau chynnal a chadw'r mynwentydd ac unrhyw golledion sylweddol a allai godi yn gyfrifon blynyddol y mynwentydd (roedd y clerc yn rhagweld colled sylweddol eleni). Cytunwyd ar y gyllideb derfynol a phasiwyd i godi'r Praesept ar gyfer 2017-18 i £11,000.

c) Cynllun Pensiwn - Eglurodd y clerc y camau priodol a oedd angen eu dilyn i gydymffurfio a'r ddeddfwriaeth newydd. Cytunwyd i anfon llythyr yn egluro opsiynau priodol i'r clerc.

ch) Tendrau torri glaswellt yn y mynwentydd 2017/20 - Gan fod tair blynedd wedi pasio ers i'r Cyngor hysbysebu'r gwaith gofalu a thorri glaswellt cytunwyd y dylid wahodd tendrau am y gwaith eleni. Cytunwyd i roi hysbyseb yn Y Cyfnod, gyda'r tendrau i mewn erbyn y 3/3/17.

d) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd – Rhag 2016)

ii) TWE

iii) Aelodaeth Un Llais Cymru

dd) Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Cantref ag Aren Cymru. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

v) Materion lleol.

Lloches Bws Llanfor.

Roedd y clerc wedi derbyn cwyn am y sbwriel a oedd wedi cael ei adael yn y lloches ac wedi trefnu i'w glirio. Cytunwyd i osod arwyddion yn gofyn i'r defnyddwyr fynd ac unrhyw sbwriel gyda nhw. Roedd y trigolion lleol yn cwyno bod gweithwyr y gwasanaeth ailgylchu yn anghofio cau cefn y lori ac roedd y sbwriel yn cael ei luchio allan i'r ffordd felly roedd posib bod sbwriel yn cael ei chwythu i mewn i'r lloches hefyd. Gofynnwyd i'r clerc basio'r sylwadau yma ymlaen i Gyngor Gwynedd.

Ffordd o Landderfel i gyfeiriad Henblas.

Gofynnwyd i'r clerc gynghori Cyngor Gwynedd bod rhan o'r ffordd angen ei thrwsio.